Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Arweinydd Prosiectau TG | Lleoliad: | Un o brif swyddfeydd yr Urdd |
| Adran: | Technoleg Gwybodaeth | Cyflog: | Gweithredol 6: £35,912 - £41,906 y flwyddyn |
| Oriau Gwaith: | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb: | Parhaol |
| Yn adrodd i: | Pennaeth Technoleg Gwybodaeth | Rheolaeth Llinell: | Dim |

## Prif bwrpas y swydd:

Mae'r Arweinydd Prosiectau TG yn gyfrifol am reoli a chyflawni prosiectau trawsnewid digidol sy'n cefnogi nodau strategol ac yn gwella perfformiad sefydliadol. Mae'r rôl hon yn gweithredu fel y bont rhwng amcanion TG strategol a gweithrediad ymarferol. Mae hyn yn cynnwys mentrau dan arweiniad TG a phrosiectau trawsadrannol, lle mae cydweithio â thimau eraill yn hanfodol. Mae deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda Phennaeth TG i flaenoriaethu prosiectau, neilltuo tasgau, a sicrhau cyflawniad llwyddiannus. Maent yn rheoli amserlenni prosiectau, adnoddau, risgiau ac adrodd, ac yn sicrhau bod pob datblygiad yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad. Mae'r rôl hon yn addas ar gyfer rhywun sydd â sgiliau rheoli prosiect cryf, ymwybyddiaeth dechnegol, a'r gallu i gydlynu mentrau cymhleth ar draws timau a systemau.

---

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

### Rheoli a Chyflawni Prosiectau

1. Arwain cynllunio, gweithredu a chyflenwi prosiectau trawsnewid digidol.
2. Diffinio cwmpas prosiect, amcanion, llinellau amser, a chyflawniadau.
3. Neilltuo a goruchwylio tasgau prosiect ar draws y tîm TG.
4. Monitro cynnydd, rheoli risgiau ac addasu cynlluniau yn ôl yr angen.
5. Defnyddio Jira a Confluence ar gyfer olrhain prosiectau a dogfennu'n drylwyr, gan fabwysiadu methodolegau Agile neu Raeadr fel y bo'n briodol.
6. Rheoli prosiectau sy'n cael eu gyrru gan TG a phrosiectau sy'n cael eu gyrru gan y sefydliad, gan gydweithio'n agos o fewn y tîm TG a chyda adrannau eraill.
7. Arwain y gwaith o gyflawni prosiectau cydymffurfio, megis ardystiad Cyber Essentials, a sicrhau monitro cydymffurfiad parhaus.

### Cydweithio a Chyfathrebu

8. Gweithredu fel y prif gyswllt rhwng TG ac adrannau eraill ar gyfer cyfathrebu cysylltiedig â phrosiect a chasglu gofynion.
9. Cynorthwyo gyda dadansoddi gwerth a blaenoriaethu ceisiadau prosiect mewn cydweithrediad â'r Pennaeth TG ac arweinwyr adrannau.
10. Hyrwyddo arferion gorau mewn rheoli prosiectau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
11. Darparu adroddiadau rheolaidd ar statws, risgiau a chanlyniadau'r prosiect i Bennaeth TG a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Arloesedd a Gwelliant Parhaus

12. Arwain ar werthuso technoleg a phrosiectau arloesi i ysgogi awtomeiddio ac effeithlonrwydd prosesau.
13. Asesu datrysiadau technoleg a darparu argymhellion ar gyfer buddsoddiadau TG strategol.
14. Alinio prosiectau â nodau strategol TG (OKRs) mewn cydweithrediad â'r Pennaeth TG.

Caffael a Rheoli Cyflenwyr

15. Rheoli prosesau caffael meddalwedd, gan gynnwys gwerthuso cyflenwyr, cefnogaeth negodi cytundebau a gweithredu.
16. Rhoi cymorth i'r Pennaeth TG gyda chynllunio cyllideb, rheoli costau, a goruchwylio cyflenwyr.

Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Strategol

17. Darparu cyflenwad achlysurol i aelodau eraill o'r tîm TG yn ystod absenoldeb neu gyfnodau brig.
18. Dirprwyo ar ran y Pennaeth TG mewn materion sy'n ymwneud â phrosiectau pan fo angen.
19. Cyflawni dyletswyddau eraill yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth TG.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

<u>Hanfodol:</u>

Cymwysterau:

1. Cymhwyster proffesiynol mewn rheoli prosiect (e.e., PRINCE2 Practitioner, PMP, AgilePM) neu brofiad cyfatebol amlwg.
2. Trwydded yrru ddilys a mynediad at gerbyd addas.

Sgiliau:

3. Arbenigedd mewn methodolegau rheoli prosiectau (Agile, Waterfall) a teclynnau (Jira, Confluence).
4. Sgiliau arwain cryf gyda'r gallu i reoli timau prosiect a chydlynu adnoddau.
5. Sgiliau cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid ardderchog, gyda gallu profedig i fod yn gyswllt rhwng timau technegol ac annhechnegol.
6. Sgiliau dadansoddi cryf, gyda'r gallu i gyfieithu gofynion busnes yn fanylebau technegol.
7. Gallu profedig i reoli caffael meddalwedd, gan gynnwys gwerthuso cyflenwyr a chefnogi negodi cytundebau.

<u>Dymunol:</u>

Cymwysterau:

1. Gradd TG berthnasol neu ardystiad proffesiynol pellach (e.e. ITIL Foundation neu Practitioner).

Sgiliau:

2. Profiad o arwain prosiectau gwerthuso ac arloesi technoleg.
3. Profiad o gynllunio rheolaeth newid a chyfathrebu.

Profiad:

4. Profiad o weithio mewn elusen neu sefydliad nid-er-elw.
5. Profiad o reoli portffolio prosiectau a fframwaith OKR.
6. Profiad o gynorthwyo datblygu a gweithredu polisïau TG.

8. Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a blaenoriaethu cryf.

Profiad:

9. Profiad sylweddol o arwain a chyflawni prosiectau TG, yn enwedig mentrau trawsnewid digidol.
10. Profiad o reoli cyllidebau prosiectau, amserlenni a risgiau.
11. Profiad o brosiectau diogelwch a chydymffurfiaeth, a gwybodaeth drylwyr o Cyber Essentials.
12. Profiad gyda phrosesau rheoli newid a rhyddhau.

---

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Awst 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

---

Gwiriadau Perthnasol: Nid yw gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) berthnasol i'r swydd yma na'r lleoliad gwaith.